Gw. 2 LGJS 5.156

# GALAREB

ER COFFADWRIAETH AM Y

## PARCH. JOHN PRYDDERCH,

TALWRN, MON;

## PARCH. DAVID HUGHES,

LLANGRISTIOLUS, *(gynt o Amlwch)*;

A'R

## PARCH. WILLIAM ROBERTS,

AMLWCH.

GAN HUGH JONES

*(Llwynog Llwyfo.)*

AMLWCH:

ARGRAFFWYD DROS YR AWDWR, YN SWYDDFA D. JONES.

X205313689

# PARCH. JOHN PRYDDERCH

A fu farw dydd Sabboth, Chwefror 28ain, 1864, yn 90 mlwydd oed, gan gadw Sabboth tragwyddol yn y nefoedd, wedi bod yn bregethwr ffyddlawn a chymeradwy gyda'r Trefnyddion Calfinaidd am yr ysbaid maith o 58 o flynyddoedd, ac wedi ei ordeinio i gyflawn waith y weinidogaeth ers 35 o flynyddoedd. Claddwyd ef yn mynwent Llangristiolus, Mawrth 4ydd, 1864.—"Da was, da a ffyddlawn, buost ffyddlawn ar ychydig, dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd."

---

1 Un ffyddlawn ac enwog a hunodd,
Un duwiol a mawr yn ei ddydd,
Gŵr gweithgar yn ngwinllan ei Arglwydd,
Llafuriodd a rhodiodd wrth ffydd ;
Ymdeithiodd wrth oleu 'r addewid,
Dilynodd y golofn o hyd,
Ei ysbryd oedd wresog a ffyddlawn
Tra 'n teithio anialwch y byd.

2 Mewn llawer cynulliad eglwysig
Fe dynodd y nefoedd i lawr,
Drwy wres ei weddiau nefolaidd,
Eu coffa sydd hyfryd yn awr ;
Cartrefai ei ysbryd yn wastad
A rhodiai yn agos i'w Dduw,
Ystyried y perffaith sydd beunydd
Yn ddyddan tra byddom ni byw.

3 Gosododd rhagluniaeth y nefoedd
Ei drigfan, a'r fan iddo fyw,
Mewn cyfle nodedig o dawel
I weithio yn ngwinllan ei Dduw ;
Un hynod a hyfryd yw hono,
Hi drefna pob un yn ei le :
Canfyddwyd mai bugail oedd Prydderch,
I arwain diadell y ne'.

4 Chwanegodd ei dda trwy wasgaru,
  Fel sylwyd gan amryw er cynt,
Wrth wasgar ei dda yn haelionus
  Ei bum' punt ennillodd ddeg punt;
Mae heddyw 'n meddiannu deg dinas
  Yn nheyrnas ddedwyddol y ne',
Yn medi o'r bywyd tragwyddol,
  Fu'n ei aros am byth yn y lle.

5 Ychydig oedd nifer crefyddwyr
  Yr amser dechreuodd ei daith,
Mae tri'gain a deuddeg er hyny,—
  Y cyfnod sydd hynod o faith;
A llawer diwygiad a welodd,
  A Seion yn "llawen fam plant,"
Ugeiniau a channoedd a ddygwyd
  I'r eglwys yn nyddiau 'r hen sant.

6 Chwenychodd wlad well i'w phreswylio,
  Gwlad gwynfyd a bywyd diboen,
Drwy Bacca a'r anial maith garw,
  Yn wastad dilynodd yr Oen:
Ei hanes a ddylid ei gadw,
  Mae 'n hyfryd o beraidd i'r byw,
Mae 'n werthfawr yngolwg yr Arglwydd,
  Wr duwiol, mor rasol ei ryw.

7 Disgynodd mewn henaint i'r beddrod,
  A'i goron yn lân ar ei ben,
A mawr fydd yr hiraeth am dano
  Yn mysg ei holl frodyr îs nen;
Llïosog oedd nifer y dyrfa
  Yn nydd ei hebryngiad i'r bedd,
Dangosent nad asyn, ond Tywysog
  A gladdent mewn hiraeth a hedd.

# PARCH. DAVID HUGHES

A fu farw Mawrth 18fed, 1864, yn 47 mlwydd oed, pan ar daith i'r Deheudir i gyhoeddi Crist yn geidwad i bechadur, wedi bod yn bregethwr cyfrifol a chymeradwy gyda'r Trefnyddion Calfinaidd am 26 mlynedd, ac wedi ei ordeinio i holl waith y weinidogaeth ers 15 mlynedd. Claddwyd ef yn mynwent Gwalchmai, Mawrth 23ain, 1864.

---

1 Angau ! angau ! 'rwyt yn gwneuthur
Rhyw weithredoedd erchyll iawn,
Teithio 'r ydwyt trwy 'r ardaloedd,
Gan ddinystrio foreu a nawn ;
Ond yn wir fe 'th drechwyd dithau
Draw ar ben Calfaria fryn,
Gan yr Iesu Brenin Seion,
Fe fydd canu byth am hyn.

2 Trwy dy oruchwyliaeth rymus,
Cludwyd David Hughes i'r bedd,
Ond ni gredwn er dy waethaf
Fod ei enaid ef mewn hedd,
Yno 'n canu byth heb dewi
Am y frwydr fawr a gaed
Gan ei brynwr, a rhyfeddu,
Am rinweddau maith y gwaed.

3 Er mor werthfawr yw marwolaeth
I'r duwiolion, sef y saint,
Er fod angeu 'n waredigaeth
Iddynt hwy, ag uchel fraint ;
Anhawdd ydyw i'w cyfeillion
Beidio wylo ar eu hol,
A hiraethu 'n brudd eu calon,
Dywed rhai ein bod yn ffol.

4 Er fod marw yn wir fuddiol
A manteisiol iddynt hwy,
Er fod angeu 'n anghenrheidiol
Iddynt, etto mae 'n rho'i clwy'

I galonau perthynasau,
  Ac archollion dan eu bron,
Y mae 'n rhwygo eu teimladau,
  Fel y rhwygai 'r graig y dòn.

5 Colled fawr i'r dosbarth ieuanc
  Am gynghorwr didwyll mwyn;
O! mor werthfawr ar y ddaear
  Yw cael dyn all gydymddwyn:
Cydymddwyn â choll a gwendid
  Sydd yn rhinwedd mawr ei werth,
I Ewynau 'r meddwl ofnus,
  Cydymdeimlad ddyru nerth.

6 Pan yn ieuanc rhoes ei hunan
  A'i holl ddoniau i Fab Duw,
Crist a'i achos ydoedd pobpeth
  Ganddo i farw ac i fyw;
Ac wrth gymdeithasu â'r Iesu,
  Daeth i feddu uchel fraint;
Cafodd deitl ei etifeddiaeth,
  Etifeddiaeth Duw a'r saint,

7 Yn Porthllechog un diwrnod,
  Pan yr oedd yn ieuanc iawn,
Fe bregethai Crist yn geidwad
  O! mor hynod oedd ei ddawn;
Traethu am yr Arglwydd Iesu
  Oedd ei holl hyfydol waith,
Wrth bregethu y Gwaredwr,
  Y gorphenodd ef ei daith.

---

8 Ei frodyr a'i chwiorydd sy'n Horeb,
  Na fyddwch yn dawel un dydd,
Heb gyfran o'i anian i'w honi
  O ddifri', a phrofi yr un ffydd;
'Run ysbryd i fod yn arweinydd,
  'Run Iôr i fod beunydd yn ben,
I'r un Iesu yn felus rho'wch foliant,
  Cewch ran o'r un mwyniant Amen.

# PARCH. WILLIAM ROBERTS

A fu yn bregethwr rheolaidd a chymeradwy iawn gyda'r Trefnyddion Calfinaidd am yn agos i 60 mlynedd, ac wedi ei ordeinio i holl waith y weinidogaeth yn y Bala, ers 47 o flynyddoedd, ac a hunodd yn yr Arglwydd Gorphenaf 19eg, 1864, yn 80 mlwydd oed.

---

1 Pa fodd y lluniaf fy ngalarnad?
  Pwy a ddysg im' redeg pin?
Pe cawn dafod, iaith, a meddwl,
  Ni wnai 'r cyfan ond yn brin;
Seren fawr o'n gwydd ymguddiodd,
  Haul fachludodd—aeth dan gudd,
William Roberts ro'ed mewn amdo,
  Mawr yw swn y wylo sydd.

2 Gŵr a ga'dd ei ddwyn i'r arfdŷ,
  Ac fe'i gwisgwyd yno 'n llawn;
Fe 'i prydferthwyd a grasusau,
  Fe 'i goreurwyd â phob dawn:
Allan daeth â'i gledd a'i wregys,
  Llurig gref a'i darian fawr,
Saethau fyrdd a yrai allan
  I galonau plant y llawr.

3 Weithiau trwst taranau cryfion
  At arferion plant y llawr,
Nes bod torf yn wyneb-lasu
  O flaen mellt y Beibl mawr;
Dull y farn oedd yn ei eiriau,
  Barnwr wedi ymwisgo â llid,
Ei ysbrydol ddarluniadau
  Lynca 'i mewn y dorf i gyd.

4 Colli'r sêr o'r uchelderau,
  Diffodd y canwyllau mawr,
Colli 'r dynion mwya'u defnydd,
  Craff eu llygaid ar y llawr,
Rhai arweiniai 'mlaen y lluoedd,
  Yn blaenu o'r rhyfeloedd sydd,
Wedi dyosg maent eu harfau,—
  Dianc o'r peiriannau 'n rhydd.

5 Mawr yw'r hiraeth sydd ag wylo,
Yn nhref Amlwch ar ei ol,
Ond mae wedi ein noswylio
A myn'd draw i blith y côr;
Daeth y fantell ddu dros Amlwch,
Môn, ac Arfon, Meirion mwy,
Gogledd a Deheudir Cymru,
Sydd yn cyd-alaru â hwy.

6 P'le mae Williams o Lecheiddior?
A Cadwaladr Owen wych?
Dafydd Elias?—gwŷr o fawredd,
Weithwyr rhyfedd aeth i'r rhych!
Am y dynion mwya'u rhinwedd
O Ddê a Gogledd, aeth i bant,
Cwyno 'n dost ei maith golledion
Yn awr mae Seion am ei phlant.

7 Seion, Seion, gad dy wylo,
Cod d'olygon etto i'r làn,
Gwel fod Arglwydd y Cynhauaf—
Duw Jehofah, ar dy ran:
Cais di ganddo ffyddlawn weithwyr,
Gweithwyr—nid segurwyr gau,
Mae ei gariad fel y cefnfor
Mawr, a'i drysor yn ddidrai.

8 Moes lawenydd—tyn ddarluniad
Gwedd a dull ei enaid ef,
A'i ysbryd hardd a'i ddoniau bywiog,
Tra 'n weinidog tan y nef;
Ar yr aden, drwy 'r cymylau
I bellder uwch na 'r gwibiog sêr,
Ei wisg a'i wedd mewn sanctaidd burdeb,
Yn hyfryd bresenoldeb nêr.

9 Ar adegau byddai 'n afiach,
Ond er hyny 'n llawn o fri:
Gŵr ymladdodd yn y brwydrau,
Ac a nofiodd rym y lli';
Eglwys Crist oedd yn ei galon,
Ac yntau yn ei chalon hi,
Mewn cwlwm cadarn anorchfygol
Yn y gŵr fu ar Galfari.

10 'Studiwr mawr yr athrawiaethau,
*Divine* o ddoniau ydoedd ef,
Yn llewyrch gwaith y duwinyddion
Gwelai fawr ddirgelion nef;

Agorwr teg ar y damegion,
 Datodwr tynion g'lymau twyll,
Ca'dd o niwl y dydd yn oleu,
 A'u trin y byddai trwy iawn bwyll.

11 Nid yn ysgol fwyn y Bala,
 Cambridge, na Rhydychain bell,
Trwy Iesu mawr yr addfwyn brophwyd,
 Fe 'u haddysgwyd yn fil gwell;
Dysgodd yn y peiriau poethion,
 Faith ddirgelion teyrnas gras,
Yn wyneb Iawn a chyflawn daliad,
 Fod pur faddeuant yn ei flas.

12 Dyma rai o'r athrawiaethau
 Draethai yn y goleu gynt,
Hyfryd sain y rhai 'n a'u rhinwedd
 Draethai 'n rhyfedd ar eu hynt:
Ca'dd Cymru faeth a Lloegr hefyd,
 Llundain draw a llawer tref,
Y pwerau grymus nerthol,
 Anorchfygol lais y nef.

13 Rhoed ei gorff yn mynwent Amlwch,
 Clyd odidog yw ei dŷ,
Melus iawn fydd hun y gweithiwr,
 Nes del cynhwrf oddi fry;
Galwad gwych yr udgorn hynod
 Rydd ollyngdod iddo o'r llaid,
Corff ac enaid yn anfarwol,
 A'i foliant bythol yn ddibaid.

14 Paham nad yw ei ysbryd heddyw
 Yn ei ddelw hardd a'i lun,
Ond ei fod yn fyrdd mwy tanbaid
 Nag y gwelwyd gan neb dyn;
Gwel'd heb frychau yn ei lygaid,
 Gwel'd y cyfan oll heb len,
Pwy all ddweyd nad yw yn canfod
 O ddyfnder byd i uchder nen.

15 Caru Crist yr ydoedd yma,
 Credu ei fod ef yn un mawr,
Ewyllysio bod yn berffaith,
 Cyflawn ddedwydd yw yn awr;
Gwel'd mae 'n eglur fel y credodd,
 Ni cha'dd ffydd ei siomi erioed;
Y tir a gredodd mewn addewid,
 Sydd ganddo 'n hyfryd dan ei droed.